**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Caerdydd

Drwy e-bost

1 Gorffennaf 2025

**Cynrychiolaeth Frys yn Ewros y Menywod – Cymru yn erbyn Ffrainc**

Annwyl Brif Weinidog

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i fynegi ein siom fawr na fydd cynrychiolaeth weinidogol yng ngêm twrnameint Ewro y Menywod rhwng Cymru a Ffrainc ar 9 Gorffennaf 2025.

Mae'r gêm hon yn ddigwyddiad chwaraeon arwyddocaol yn ogystal â bod hefyd yn foment o falchder cenedlaethol. Cafwyd gwybod y bydd y Prif Weinidog yn bresennol yng ngêm Lloegr, ac y disgwylir y bydd Arlywydd Ffrainc yn bresennol i gefnogi ei dîm cenedlaethol. Mae diffyg cynrychiolaeth gan Lywodraeth Cymru yn peri risg o gyfleu nad yw ein tîm menywod yn cael yr un gydnabyddiaeth na chefnogaeth ag eraill ar y llwyfan rhyngwladol.

Rydym yn eich annog i ailystyried y safbwynt hwn ar frys. Byddai presenoldeb gweinidogol gweladwy yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb rhywiol ym maes chwaraeon, a'i chefnogaeth i'n hathletwyr cenedlaethol.

A fyddech cystal â chadarnhau a fydd gweinidog yn bresennol yn y gêm erbyn hyn, i ddarparu'r gefnogaeth weladwy y mae ein tîm yn ei haeddu, ac i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli gyda balchder ar y llwyfan rhyngwladol pwysig hwn?

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.